



Hysbysiad Preifatrwydd y Wefan

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn amlinellu sut y mae St. Modwen Properties PLC a'i grŵp yn defnyddio ac yn diogelu unrhyw ddata personol a ddarperir gennych neu a gesglir gennym pan fyddwch chi'n ymweld â'r wefan hon.

Rydym ni'n gwerthfawrogi eich bod chi'n ymweld â'r wefan hon ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd eich preifatrwydd yn cael ei warchod. Dim ond yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn y defnyddir unrhyw ddata personol a roddir gennych chi wrth i chi ddefnyddio'r wefan hon.

St Modwen PLC sy'n penderfynu beth sy'n digwydd i unrhyw ddata personol a gesglir pan fyddwch chi'n defnyddio'r wefan hon [ac felly mae'n rheolwr data i bwrpasau deddfau Diogelu Data a'r hysbysiad hwn].

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd eich data personol yn cael ei gasglu, prosesu a'i ddefnyddio, a pha fath a gesglir, prosesir a'i ddefnyddio yn ystod eich ymweliad â'r safle hwn ac wedi hynny. Mae hefyd yn amlinellu pam y cesglir y data ac â phwy y caiff ei rannu neu ddatgelu a pha hawliau sydd gennych chi yn hyn o beth.

Efallai y byddwn ni'n newid yr hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd drwy ddiweddarau'r dudalen hon. Dylech wirio'r dudalen pan fyddwch wedi cael gwybod gennym am newidiadau a all effeithio sut y cesglir a phrosesir eich data i sicrhau eich bod chi'n fodlon ag unrhyw newidiadau. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn weithredol o **25 Mai 2018**.

Dolenni i wefannau eraill

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymwneud â'r dolenni o fewn o'r wefan hon sy'n eich cysylltu â gwefannau eraill. Fe fyddem ni'n eich annog i ddarllen y datganiadau preifatrwydd ar y gwefannau eraill y byddwch chi'n ymweld â nhw.

Pa ddata personol a gesglir gennym

Pan fyddwch chi'n ymweld â'r wefan hon, bydd ein gweinydd gwe yn cofnodi manylion am eich ymweliad yn awtomatig, gan gynnwys:

- Cyfeiriad IP
- Y wefan y bu i chi ymweld â ni ohoni
- Y math o feddalwedd pori a ddefnyddiwyd

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r data personol a gesglir gennym

Mae angen yr wybodaeth hon arnom i fonitro ac adrodd ar effeithiolrwydd y safle ac i'n helpu i'w gwella. Rydym hefyd yn ei defnyddio:

- I wella ein cynnyrch a'n gwasanaethau;
- Ar gyfer gweinyddu a marchnata ar gyfer cwsmeriaid a defnyddwyr;
- I ymdrin ag ymholiadau; ac
- I gynnal ymchwil a dadansoddi am ein perthynas fusnes ag eraill

Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi pan fydd angen eich caniatâd arnom i brosesu eich data personol. Fel arall, byddwn ni'n prosesu eich data personol i gwrdd â'n diddordebau busnes cyfreithlon neu pan fo'i angen arnom i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol. Yn ogystal, gallwn brosesu eich data personol cyn mynd i drefniant cytundebol â chi, neu i gwblhau trefniant cytundebol sy'n bodoli eisoes.

Diogelwch data

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch technegol a sefydliadol yn eu lle i ddiogelu eich data personol yn erbyn mynediad iddo heb awdurdod, camddefnydd, colli'r data neu'i ddinistrio, gan gynnwys:

- Gweithredu rheoliadau mynediad i'n technoleg gwybodaeth, fel muriau tân, gwirio ID ac is-rannu rhesymegol a / neu wahanu corfforol rhwng ein systemau a gwybodaeth;
- Peidio byth â gofyn i chi am eich cyfrineiriau;
- Eich cyngori byth i roi unrhyw adnabyddwyr unigryw fel rhifau cyfrifon neu gyfrineiriau mewn e-bost neu ar ôl dilyn dolen o e-bost.

Fyddwn ni byth yn datgelu eich data personol i bartïon nad oes ganddynt awdurdod i'w prosesu.

Defnyddio Google Analytics

Mae'r wefan St. Modwen hon yn defnyddio Google Analytics, gwasanaeth dadansoddi'r we a ddarperir gan Google, Inc. ("Google"). Mae Google Analytics yn defnyddio "cwcis", sef ffeiliau testun a osodir ar eich cyfrifiadur i'n helpu ni i ddadansoddi sut y bydd ymwelwyr yn defnyddio'r safle. Bydd yr wybodaeth a gynhyrchir gan y cwci am y ffordd y defnyddiwyd y wefan (gan gynnwys eich cyfeiriad IP) yn cael ei throsglwyddo i Google a'i storio ganddynt ar weinyddion yn yr Unol Daleithiau. Bydd Google yn defnyddio'r wybodaeth hon i werthuso eich defnydd o'r wefan hon, gan grynhoi adroddiadau ar eich gweithgarwch ar y wefan o ran y tudalennau yr ymwelwyd â nhw, pa mor hir y bu i chi aros yno a'r gyfradd bowns, gan ddarparu gwasanaethau amrywiol eraill sy'n ymwneud â gweithgaredd a defnydd o'r wefan. Gall Google yn ogystal drosglwyddo'r wybodaeth hon i drydydd parti pan ofynnir iddynt wneud hynny gan y gyfraith, neu pan fydd trydydd parti o'r fath yn prosesu'r wybodaeth ar ran Google. Ni fydd Google yn cysylltu eich cyfeiriad IP ag unrhyw ddata arall sy'n cael ei ddal gan Google. Gallwch wrthod defnyddio cwcis drwy ddewis y gosodiadau addas ar eich porwr, serch hynny, nodwch os gwelwch yn dda ei bod hi'n bosib na fydd modd i chi ddefnyddio'r wefan hyd eitha'i gallu drwy wneud hynny. Drwy ddefnyddio'r wefan hon, rydych chi'n cytuno i ddata amdanoch chi gael ei brosesu gan Google yn y dull ac i'r pwrpasau a amlinellir uchod.

Os ydych chi am rwystro eich data rhag cael ei ddefnyddio gan Google Analytics, gallwch lawrlwytho'r porwr optio allan yma: <https://tools.google.com/dlpage/gaoptout?hl=en>

Y lleoliad ble prosesir data personol

Bydd eich data personol yn cael ei brosesu yn y Deyrnas Unedig, yn unol â chyfyngiadau cytundebol sy'n ymwneud â chyfrinachedd a diogelwch yn unol â chyfreithiau a rheoliadau diogelu data perthnasol.

Hawliau yng nghyd-destun defnyddio data personol

Mae gennych chi hawl i:

- Gael mynediad i'ch data personol sy'n cael ei ddal amdanoch ac i ddysgu am ffynhonnell y data, pwrpasau a phen draw'r prosesu, manylion rheolwr neu reolwyr y data, y prosesydd / proseswyr data a'r partiön y byddwn ni'n rhannu'r wybodaeth â nhw
- Tynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg pan fydd eich data personol yn cael ei brosesu â'ch caniatâd
- Diweddarau a chywiro eich data personol er mwyn ei wneud yn gywir
- Gwneud cais am ddileu eich data personol o'n cofnodion mewn rhai amgylchiadau
- Cyfyngu ar brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau
- Gofyn am gopi o'ch data mewn ffurf symudol y gellir ei aildefnyddio er mwyn galluogi trosglwyddo setiau data rhwng sefydliadau
- Gallu herio unrhyw broffilio a gwneud penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio, gan olygu na fyddwch chi'n ddarostyngedig i benderfyniadau a wnaed ar sail prosesu wedi'i awtomeiddio yn unig, sy'n effeithio'n sylweddol amoch

- Cofrestru cwyn gyda ni a / neu Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) y DU. Gallwch ddod o hyd i ragor o wbydaeth am eich hawliau drwy ymweld â gwefan yr ICO yma: <https://ico.org.uk>

Gwrthwynebu prosesu data personol

Mae gennych hawl i wrthwynebu ein bod ni'n trin eich data personol, neu gallwch ddweud wrthym am roi'r gorau i brosesu eich data (gan gynnwys i bwrpasau marchnata uniongyrchol). Unwaith y byddwch chi wedi dweud wrthym am y cais hwn, ni fyddwn ni bellach yn prosesu eich data personol oni bai fod cyfreithiau a rheoliadau perthnasol yn rhoi caniatâd i ni wneud.

Gallwch chi arfer yr hawl hwn yn yr un modd ag ar gyfer eich hawliau eraill fel y nodir uchod.

Cadw data personol

Ni fyddwn ni'n cadw eich data personol yn hwy nag y bo angen; byddwn ni'n sefydlu hyn drwy ystyried canllawiau ar arfer orau yn y maes y mae'r data personol yn ymwneud ag ef a byddwn ni'n ei gadw i'r pwrpasau y cafodd ei gasglu yn unig. Mae'r cyfnodau cadw addas yn dibynnu ar y ffactorau canlynol: gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol. Perfformio swyddogaeth gyhoeddus neu arferion y cytunwyd arnynt o fewn i'r diwydiant.

Ceisiadau ac Ymholiadau

Mae St Modwen yn ceisio cyflawni'r safonau uchaf posib wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym ni'n trin unrhyw gwynion a dderbyniwn ynghylch y mater o ddiffri calon. Rydym ni'n annog pobl i'w ddwyn i'n sylw os ydyn nhw'n meddwl fod y dull yr ydym ni'n casglu neu'n defnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n anaddas. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar sut i wella ein gweithdrefnau.

Os dymunwch wneud cwyn am ein defnydd ni o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

**Information Commissioner's Office Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF**

Drafftwyd yr hysbysid preifatrwydd hwn yn gan ystyried pa mor gryno a chdir y gallai fod. Nid yw'n darparu manylion hirfaith ar bob agwedd ar gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Serch hynny, rydym ni'n fwy na pharod i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad pellach y dymunwch eu cael. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y modd y byddwn ni'n defnyddio eich data personol, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data St. Modwen (DPO) drwy'r post neu dros e-bost gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Group Data Protection Officer Park Point
17 High Street
Longbridge
Birmingham B31 2UQ**

E-bost: protectinginformation@stmodwen.co.uk
